Cyd-ddatganiad Sefyllfa y Children's Play Policy Forum a'r UK Play Safety Forum

# Cynnwys

## Plant Anabl mewn Darpariaeth Chwarae

### Cyflwyniad

Mae pob plentyn angen ac mae ganddynt hawl i chwarae. Mae chwarae'n hanfodol ar gyfer iechyd, lles a hapusrwydd plant – yn enwedig i blant sy'n wynebu rhwystrau fel gwahaniaethu a chael eu heithrio.

Y peth hyfryd am chwarae yw bod pob plentyn yn gallu chwarae yn ei ffordd ei hun, ar ei gyflymder ei hun, gan ddilyn ei anghenion, ei ddymuniadau, ei reddf a'i ddychymyg ei hun. Trwy chwarae bydd plant yn archwilio ac yn dysgu am y byd o'u hamgylch.

Gall chwarae gynnwys ystod eang o wahanol brofiadau yn cynnwys rhai cymdeithasol, corfforol, synhwyraidd a chreadigol. Gall chwarae fod yn swnllyd ac afreolus, neu'n dawel a mewnsyllol. Gall ddigwydd mewn amgylcheddau naturiol neu wneuthuredig. Gall plant chwarae ar eu pen eu hunain, neu mewn grwpiau, yn annibynnol neu gyda rhiant neu ofalwr.

Bydd darpariaeth chwarae dda yn gwneud i bawb – yn blant ac oedolion o bob oed – deimlo'n gyfforddus a bod croeso iddynt yn y gofod, gydag ystod eang o gyfleoedd a phrofiadau ar gyfer pob gallu.

Mae gan feysydd chwarae a mannau chwarae botensial aruthrol i ddarparu cyfleoedd pwysig er mwyn i blant anabl gael eu cynnwys yn eu cymunedau, gan chwalu rhwystrau a chreu perthnasau. Mae hyn yn sicrhau buddiannau ar gyfer plant sydd ddim yn anabl hefyd, gan eu bod yn dysgu trwy ryngweithio ac ymgysylltu gyda ffrindiau a chyfoedion anabl.


© Learning through Landscapes / Play Scotland

Yn anffodus, yn y DU, mae llawer o blant anabl, rhieni anabl, a'u teuluoedd yn dal i gael eu heithrio o fannau chwarae lleol. Mae rhwystrau'n cynnwys diffyg hygyrchedd, diffyg dealltwriaeth o anghenion a dymuniadau plant anabl, agweddau negyddol y cyhoedd ac ystod gyfyngedig o gyfleoedd chwarae.

Rydym yn credu y gall pawb helpu plant anabl a'u teuluoedd i deimlo bod croeso iddynt a'u cynnwys yn eu mannau chwarae lleol. Mae gan y bobl hynny sy'n rhan o ddylunio a rheoli mannau chwarae rôl allweddol i'w chwarae wrth arwain newid, mewn partneriaeth â phlant anabl, eu teuluoedd a'r gymuned leol.

**Mae agwedd bositif, â ffocws ar ddatrysiadau'n hanfodol er mwyn cynnwys plant anabl – gwrando ar ac ymgysylltu gyda theuluoedd, blaenoriaethu anghenion a dymuniadau plant anabl, gwneud addasiadau er mwyn cynyddu hygyrchedd a gwaredu rhwystrau, newid agweddau'r cyhoedd, creu man croesawus a mwyafu'r ystod o gyfleoedd chwarae a gynigir gan yr offer a'r amgylchedd yn gyffredinol.**

## Cefndir a chyd-destun

Mae'r Datganiad hwn yn anelu i gefnogi'r bobl hynny yn y DU sydd ynghlwm â gwneud cyfleusterau fel gofodau chwarae, meysydd chwarae a meysydd chwarae antur yn fwy hygyrch a chynhwysol. Mae wedi ei ysgrifennu ar gyfer awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol, cymdeithasau tai ac ysgolion, ymysg darparwyr chwarae eraill – yn cynnwys darparwyr preifat (e.e. tafarndai, parciau gwyliau, meysydd gwersylla, gorsafoedd petrol, parciau thema, sŵau).

Mae'r datganiad gan y Children's Play Policy Forum (CPPF) a'r Play Safety Forum (PSF)[1], dau gorff cenedlaethol y DU sydd wedi ymrwymo i gyfoethogi cyfleoedd chwarae o safon ar gyfer pob plentyn. Mae'r ddau'n eiriol y dylai pob plentyn brofi ystod eang o gyfleoedd chwarae, ac mae eu gwaith yn seiliedig ar hawl y plentyn i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau ac ar eu hawl i chwarae. Mae'r hawliau hyn wedi eu gwarchod gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)[2], a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA)[3] yn ogystal ag ystod eang o ddeddfau cenedlaethol ar draws y DU.

Mae Atodiad 2 yn rhannu tair esiampl o astudiaethau achos.

## Pam fod angen y Datganiad hwn

Er mwyn cynnal hawl ac angen pob plentyn i chwarae, **mae creu gofodau chwarae hygyrch a chynhwysol yn hanfodol**. Hyd yma, rydym fel cymdeithas wedi methu creu digon o fannau hygyrch a chynhwysol i blant chwarae ynddynt o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.

Mae deddfau anabledd a chydraddoldeb yn pwysleisio'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol[4] er mwyn sicrhau nad yw pobl anabl yn cael eu gosod dan anfantais sylweddol. Mewn mannau chwarae, dylai hyn arwain at addasiadau sy'n galluogi plant anabl a'u teuluoedd i fwynhau cyfleusterau sy'n gweithio'n dda iddyn nhw. Ond, nid yw'r addasiadau sydd wedi eu gwneud wedi arwain at fawr o wahaniaeth ar gyfer llawer o blant anabl.

Wrth benderfynu os yw addasiadau i gyfleuster neu nodwedd benodol yn rhesymol, mae'n hanfodol ystyried pa mor effeithiol fydd hyn wrth ddarparu ar gyfer pob math o anghenion. Mae ymchwil[5] ac ymgysylltu gyda phlant a'u teuluoedd wedi dynodi methiannau cyffredin wrth ddylunio mannau chwarae sy'n arwain at eithrio diangen. Er gwaethaf enghreifftiau o ddyfeisgarwch ac ariannu, mae patrymau penodol yn parhau mewn dylunio mannau chwarae sy'n achosi eithrio plant. Yn aml, caiff hyn ei waethygu gan ddefnydd cyfnewidiol amhriodol o'r termau "hygyrch" a "chynhwysol".

Mae teuluoedd sydd ag aelodau anabl yn tynnu sylw at rwystrau sylweddol, ac yn benodol: diffyg dewisiadau (yn enwedig ar gyfer plant sydd angen dal i eistedd mewn coetsh neu gadair olwyn); diffyg cyfleusterau toiledau priodol; ac agweddau cymdeithasol negyddol. Datgelwyd effaith y rhwystrau hyn mewn arolwg[6] o dros 400 o deuluoedd plant anabl, a ganfyddodd bod dros hanner yn methu chwarae mor aml ag yr hoffent, tra bo bron i hanner angen toiled 'Changing Places'[7] er mwyn hwyluso eu defnydd o'r cyfleusterau chwarae.

Mae dylunio da yn ystyried anghenion unigol y plentyn, gwerth chwarae, a gwahanol fathau o chwarae[8], mae'n cynnig cyfleoedd i bob plentyn gymryd risg a her, ac mae'n cymryd agwedd gytbwys tuag at risg[9]. Mae hefyd yn ymateb i nodweddion unigryw safleoedd unigol ac anghenion y gymuned.

**Mae Gwerth Chwarae yn disgrifio'r gwerth y mae amgylchedd, gwrthrych neu ddarn o offer yn ei roi i brofiad plant wrth chwarae. Mae gofod sy'n gyfoeth o werth chwarae'n creu cyfleoedd ar gyfer amrywiaeth o brofiadau corfforol, cymdeithasol a synhwyraidd. Bydd gan elfen werth chwarae uchel os gall plant chwarae â hi mewn nifer o wahanol ffyrdd, ei chynnwys yn eu chwarae neu ei defnyddio i ehangu ar eu syniadau a'u gweithredoedd eu hunain.**

Mae mannau chwarae'n amrywio mewn maint; o gyfleusterau bychan lleol i safleoedd mawr gyda nifer o gyfleusterau fel toiledau, parcio a chyfleoedd am luniaeth. Cydnabyddir hefyd bod cyllidebau cyfalaf a refeniw cyfyngedig, penodol ar gyfer darparu cyfleusterau chwarae plant. Felly, i lawer o ddarparwyr, mae darpariaeth strategol mannau chwarae gwirioneddol gynhwysol mewn cyrchfannau a ddewisir yn ddoeth yn debyg o fod yn nodwedd allweddol o ymateb rhesymol i ddeddfwriaethau.

Mae'r safon Ewropeaidd BS EN 1176 yn darparu cyfres gytûn o safonau diogelwch ar gyfer offer meysydd chwarae, beth bynnag yw gallu'r plentyn. Nid oes safonau amgen ar gyfer mannau chwarae cynhwysol ar hyn o bryd.



© Mae Murray Foundation




## Diffinio Mannau Chwarae Hygyrch a Chynhwysol

Mae'r UK Play Safety Forum a Children's Play Policy Forum yn argymell y diffiniadau canlynol pan yn defnyddio'r termau "hygyrch" a "chynhwysol" yng nghyd-destun gofod chwarae.

**Mae Man Chwarae Hygyrch yn ofod sy'n rhydd o rwystrau, sy'n caniatáu mynediad i bob defnyddiwr symud o gwmpas y gofod ac mae'n cynnig cyfleoedd cyfranogaeth ar gyfer ystod o wahanol alluoedd. Ni fydd pob plentyn o bob gallu yn gallu defnyddio popeth sydd mewn man chwarae hygyrch.**

**Mae Man Chwarae Cynhwysol yn cynnig amgylchedd sy'n rhydd o rwystrau, ynghyd â'r isadeiledd ategol, sy'n ateb anghenion chwarae eang ac amrywiol pob plentyn. Bydd plant anabl a phlant sydd ddim yn anabl yn mwynhau lefelau uchel o gyfleoedd cyfranogi, sydd yr un mor gyfoethog o ran gwerth chwarae.**

Mae gan fannau chwarae cynhwysol y nodweddion canlynol:

- Mae nodau'r cyfleuster yn cael eu datgan yn glir.
- Mae rhieni / gofalwyr a'r plant yn cael cyfle i ddeall patrwm, offer chwarae, gofod cyffredinol a chyfleusterau cyn cyrraedd yno.
- Mae dylunwyr a darparwyr yn trafod gyda darparwyr cludiant lleol i ymchwilio i gysylltiadau trafnidiaeth hygyrch.
- Mae offer chwarae cynhwysol wedi ei leoli ar hyd a lled safle cyfan y man chwarae ac nid yw wedi ei gyfyngu i ardal benodol neu ardal ar wahân.
- Mae rhwystrau y gwyddir amdanynt yn cael eu delio â hwy.

Mae'r Datganiad Sefyllfa hwn yn seiliedig ar y model cymdeithasol o anabledd sy'n dynodi bod anabledd yn ganlyniad y rhwystrau a wynebir gan bobl sydd ag ystod amrywiol o anghenion – allai fod yn ystyriaethau corfforol, synhwyraidd, addysgol neu feddygol. Nid anghenion yr unigolyn sy'n creu'r anabledd ond y modd y mae cymdeithas yn ymateb i'r anghenion hynny[10]. Defnyddir y term "plant anabl" i olygu plant gaiff eu hanablu gan eu hamgylchedd.

Mae'r Datganiad Sefyllfa hwn yn amlygu'r gwahaniaeth rhwng mannau chwarae "hygyrch" a "chynhwysol". Mae'n cydnabod, er y dylai pob man chwarae fod yn hygyrch ni all, ac ni fydd pob man chwarae'n gynhwysol. Felly, ni ddylid defnyddio'r termau "hygyrch" a "chynhwysol" yn gyfnewidiol. Mae cymhlethdod ynghylch y derminoleg yma'n cyfrannu at ddiffyg darpariaeth priodol.

## Negeseuon Allweddol y Datganiad

1. Mae agwedd bositif sy'n rhoi ffocws ar ddatrysiadau yn allweddol ar gyfer dylunio mannau chwarae cynhwysol, yn seiliedig ar ddealltwriaeth a blaenoriaethu anghenion plant anabl a gwneud addasiadau i'w cynnwys.

   Gall y bobl hynny sy'n gyfrifol am ddylunio a rheoli mannau chwarae wneud gwahaniaeth mawr trwy eiriol dros bwysigrwydd cynnwys plant anabl mewn mannau chwarae, gweithio mewn partneriaeth gyda phlant anabl, eu teuluoedd a'r gymuned leol.

2. Mae plant a'u teuluoedd eisiau mannau chwarae sy'n cynnwys yr ystod o nodweddion a chyfleusterau y maent eu hangen.

   Gall plant a'u teuluoedd gael eu siomi pan nad yw mannau chwarae a elwir yn rhai "cynhwysol" yn cynnwys y cyfleusterau a'r nodweddion dylunio fyddai'n gwneud i'r amgylchedd weithio'n dda iddyn nhw.

   Gall addasiadau bychain wneud gwahaniaeth mawr[11].

3. Dylai mannau chwarae gynnig cydbwysedd o gyfleoedd her uchel i isel a chymysgedd dda o nodweddion chwarae.

Mae cyfleoedd chwarae sy'n cynnig ystod eang o brofiadau, her, amrywiaeth a dewis chwarae yn hanfodol ar gyfer plant a theuluoedd anabl. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod rhaid i bob nodwedd chwarae fod yn hygyrch i bob plentyn.

Mae angen i ddarparwyr lunio barn am werth ynghylch sut i greu mannau sy'n gweithio'n dda i bawb, wrth ateb lefelau gallu ac awydd amrywiol plant am risg a her.

4. Mae pob plentyn yn haeddu gallu mwynhau mannau chwarae sy'n gweithio'n dda iddyn nhw a'u teuluoedd o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.

   Mae angen i ddarparwyr a gweithredwyr chwarae fabwysiadu agwedd strategol tuag at gynllunio mannau hygyrch a chynhwysol.

5. Dylai pob man chwarae gael ei ddatblygu trwy gyfranogaeth y gymuned, cyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu.

   Dylai cynlluniau ar gyfer darpariaeth wastad gael eu cyd-gynhyrchu gyda phlant ac oedolion lleol. Bydd ymgysylltu gyda phlant a theuluoedd yn helpu i sicrhau bod ystod eang o gyfleoedd chwarae ar gyfer gwahanol lefelau o allu. Mae angen dyfeisio a chyd-gynhyrchu pellach rhwng rhanddeiliaid i ddatblygu mwy o offer a nodweddion sy'n cynnig cyfleoedd chwarae cynhwysol ar gyfer pob plentyn. Dylai hyn gynnwys darparwyr a gweithredwyr mannau chwarae, gwneuthurwyr offer chwarae, dylunwyr mannau chwarae a theuluoedd.

   Bydd cynghorwyr a grwpiau cymunedol lleol sy'n gweithio gyda phlant anabl yn gallu darparu data pwysig a chreu cysylltiadau gyda rhanddeiliaid lleol.

## Cyfeiriadau


1. www.playsafetyforum.org.uk www.childrensplaypolicyforum.org.uk
2. Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn (CRC), General comment No. 17 (2013) on the right of the child to rest, leisure, play, recreational activities, cultural life and the arts (Erth. 31), 17 Ebrill 2013, CRC/C/GC/17, ar gael ar: www.refworld.org/docid/51ef9bcc4.html [cyrchwyd 18 Chwefror 2022]
3. Cynulliad Cyffredinol y CU, Convention on the Rights of Persons with Disabilities, 13 Rhagfyr 2006, A/RES/61/106, Atodiad I, ar gael ar: www.refworld.org/docid/4680cd212.html [cyrchwyd 18 Chwefror 2022]
4. www.ribaj.com/intelligence/designing-for-disability-know-your-legal-obligations Adran 20 www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/part/2/chapter/2/crossheading/adjustments-for-disabled-persons
5. PlayBoard Northern Ireland a Mae Murray Foundation (2022) Let Me Play: Inclusive Play Park Study
6. Ibid
7. www.changing-places.org [cyrchwyd 3 Mawrth 2022]
8. www.playscotland.org/play/playful-learning/play-types-toolkit-bringing-play-school-day
9. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2012) Chwarae a Hamdden Plant – Hyrwyddo Agwedd Gytbwys. Ar gael ar: www.chwaraecymru.org.uk/cym/chwaraeaher [cyrchwyd 28 Chwefror 2022]
10. Let Me Play: Inclusive Play Park Study
11. www.playsafetyforum.wordpress.com/including-disabled-children-in-play-provision/



© HAGS


The Children's Play Policy Forum: A collective voice for children's play www.childrensplaypolicyforum.org.uk
Play Safety Forum www.playsafetyforum.org.uk


©CPPF, PSF 2022